Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

UNED 4: NODIADAU ATHRAWON

- **Coed Hynafol – cadwraeth a rheolaeth**
- **Coed Hynafol mewn Trafferth – cyfryngau'n adrodd**
- **Mae Coed Hynafol yn Cyfrif – argyhoeddi pobl**

Deilliannau Dysgu

Trwy gynnal y gweithgareddau hyn, bydd dysgwyr yn gallu:

- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu i rannu gwybodaeth, datblygu safbwyntiau a dadleuon, a'u cyflwyno i gynulleidfa ehangach.
- Meddwl yn greadigol ac yn annibynnol, datblygu agweddau gwybodus a gwneud dewisiadau/penderfyniadau gwybodus.
- Defnyddio sgiliau trawsgwricwlaidd i helpu cyfathrebu a chyflwyno dealltwriaeth wyddonol.
- Esbonio'r blaenoriaethau cadwraethol i goed hynafol, a sut mae gwyddoniaeth wedi helpu i adnabod rheolaeth briodol.
- Gweithio'n annibynnol a gydag eraill, gan ddatblygu hunanymwybyddiaeth a chyfleu eu credoau eu hunain.
- Gwerthuso mater amgylcheddol/gwyddonol, trwy gynnal dadansoddiad SWOT [cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau], a defnyddio'r canlyniadau i asesu'r risgiau cysylltiol.
- Rhoi enghraifft o sut mae gwyddoniaeth yn effeithio ar yr amgylchedd, a'r ffordd yr ydym yn gwerthfawrogi ein hetifeddiaeth naturiol a diwylliannol.
- Adnabod llwybrau dysgu a llwybrau gyrfaol cysylltiedig â gwyddoniaeth wrth gynnal y gweithgareddau hyn.

Prif Gysylltiadau Cwricwlwaidd

Sgiliau

Cyfathrebu

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion drin a chyflwyno gwybodaeth wyddonol er mwyn:

1. chwilio am wybodaeth mewn ffordd systematig, ei phrosesu a'i dadansoddi i ddibenion penodol, gan gynnwys TGCh fel bo'n briodol
2. cyfathrebu mewn ffordd resymegol trwy siarad, ysgrifennu, lluniadau, diagramau, siartiau, tablau, siartiau bar, llinellau graff, fideos a phecynnau TGCh gan ddefnyddio ystod eang o eirfa, termau, symbolau a chonfensiynau gwyddonol

Cyd-ddibyniaeth organebau

1. adeiledd a gweithredu sylfaenol rhai celloedd, meinweoedd, organau asystemau organau a sut y maent yn cynnal prosesau bywyd hanfodol
6. sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr amgylchedd byd a'r camau a gymerir i leihau unrhyw effeithiau negyddol a'u monitro.

Y Ddaear gynaliadwy

5. priodweddau defnyddiau cynaliadwy a'u perthnasu i'r defnydd a wneir ohonynt mewn bywyd bob dydd

Cysylltiadau cwricwlaidd eraill

Datblygu cyfathrebu: Llafaredd, darllen, ysgrifennu
Datblygu meddwl
ABCh
ADCDF

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

UNED 4: TAFLEN ATHRO

Gweithgaredd 1: Coed Hynafol – cadwraeth a rheolaeth

Cefndir

Mae parhad hen goed yn y dirwedd, a'u cadwraeth, yn dibynnu ar gyngor a rheolaeth gadarn, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth werthoedd cynhenid y coed hyn, yn ogystal ag unrhyw oblygiadau cyfreithiol cysylltiedig â pherchnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ecolegwyr/gwyddonwyr bellach yn cydnabod gwerth ecolegol a bioamrywiol penodol coed hynafol. Ond mae yna rai fforestwyr/rheolwyr tir ac aelodau o'r cyhoedd heb dderbyn y neges, gan barhau i feddwl bod hen goed gwag yn beryglus. Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio gwrthdaro o'r fath, a sut y gellir sicrhau cydbwysedd.

Mae gan **goed hynafol** y gallu a'r cyfle unigryw gydag oedran i **ddatblygu ystod o gynefinoedd/cilfachau cyfoethog, ond prin**, sy'n gallu cynnal cennau, mwsoglau, ffyngau penodol, a rhai mathau o infertebratau ac adar – **rhai rhywogaethau prin sydd mewn perygl**.

Mae cynefinoedd coetir, fel coetiroedd lled-naturiol a hynafol yn gyffredinol yn cael eu gwarchod gan ryw fath o ddynodiad, ond mae porfeydd coed (gan amlaf yn laswelltir agored a choed unigol, e.e. hen docbrennau gwern a chyll), a hen binwydd hefyd yn gynefinoedd sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd angen eu gwarchod.

Mae coed hynafol yn Lloegr a'r Alban yn cynrychioli canran uchel iawn o hen goed Gogledd Ewrop. Maent hefyd yn nodwedd bwysig o'n tirwedd a'n hetifeddiaeth fiolegol.

Mae llawer o hen goed a'r cynefinoedd bregus y maent yn eu cefnogi dan fygythiad oherwydd dulliau rheoli anaddas. Mae hyn yn aml yn ganlyniad i dorri coed, a/neu newid yn y defnydd a wneir o'r tir o gwmpas y coed. Mae hefyd yn ganlyniad i'r ffaith bod llawer o reolwyr wedi cael hyfforddiant gwael, a heb gael yr holl wybodaeth angenrheidiol; bydd hyn yn arwain at reolaeth wael dros goed - sef sefyllfa hollol anaddas i goed sy'n aml yn goed iach.

Offer angenrheidiol:

Copïau o **Daflen Weithgaredd Disgybl 4/S1** *Diogelu Coed Hynafol* – 1 yr un/i bob grŵp

Copïau o **Daflen Weithgaredd Disgybl 4/S2** *Cynnal Dadansoddiad SWOT* – 1 yr un/i bob grŵp

Mae gan bobl sy'n gyfrifol am unrhyw goed (perchennog/rheolwr tir) ddyletswydd a elwir yn gyfreithiol yn **ddyletswydd gofal**. Mae hyn yn golygu y dylid cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw unrhyw weithred gysylltiedig â choeden, neu fethiant i weithredu, yn debygol o beryglu unrhyw berson, neu eiddo. Cydnabyddir nad yw hi byth yn bosibl cael gwared â phob perygl yn llwyr. Mae'r gyfraith yn mynnu bod peryglon amlwg yn cael eu hadnabod, a'u bod, cyn belled â bod hynny'n rhesymol bosibl, yn cael eu dileu - gallai hynny olygu symud pobl yn hytrach na'r goeden.

Mae'r gyfraith yn diogelu rhai rhywogaethau a'r coed y maent yn byw ynddynt – mae eu niweidio nhw neu ddinistrio eu nythod, eu mannau clwydo neu'u cynefinoedd yn drosedd e.e. ystlumod, gwiwerod coch, infertebratau, adar magu/mewn perygl, planhigion, ffyngau a chennau mewn perygl.

Beth i'w wneud

Rhowch gyfle i'r dosbarth edrych ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol www.ancient-tree-hunt.org.uk/project (cliciwch ar 'Cymraeg') ac archwilio tudalennau *Coed Hynafol/Gwarchod Coed Hynafol* a *Coed Hynafol/Rheoli Coed Hynafol.* Gofynnwch iddynt rannu rhai agweddau ar warchod coed hynafol y maent wedi'u darganfod – gallwch ychwanegu gwybodaeth yn ôl yr angen.

Trefnwch y dosbarth i weithio mewn grwpiau bach o 2-3 gyda lle i weithio ar y llawr neu ar fwrdd. Rhowch senario iddynt ar sgrin/bwrdd gwyn/siart troi. Gofynnwch iddynt ddychmygu sefyllfa lle mae coeden hen neu hynafol yn sefyll mewn parcdir agored, mewn Parc Gwledig. Yn ddiweddar, mae ychydig o ganghennau mawr, pwdr wedi syrthio

The Tree Register · ancient tree forum · heritage lottery fund LOTTERY FUNDED · Esmée Fairbairn FOUNDATION · SCOTTISH NATURAL HERITAGE · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

3720/06/08

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

i'r ddaear lle mae pobl yn aml yn cael picnic yn yr haf. **Mae'r ceidwaid yn ystyried sut dylent reoli'r sefyllfa.**

A ydynt i gyd yn gwybod beth yw gwaith y Ceidwaid Gwledig? Os nad ydynt, helpwch nhw i ffeindio allan. Defnyddiwch Beiriant Chwilio a geiriau allweddol - *countryside ranger*/ceidwaid gwledig.

Mae'r Ceidwaid yn gyfrifol am **warchod bioamrywiaeth** y Parc Gwledig a'i goed hen iawn, ond hefyd eu **dehongliad** er **mwynhad a dealltwriaeth** ymwelwyr, ac er diogelwch staff ac ymwelwyr.

Mae ganddynt nifer o wahanol opsiynau, a rhaid iddynt benderfynu pa un i'w ddewis. Gofynnwch i'r dosbarth ddychmygu mai nhw yw un o'r ceidwaid, a'u bod yn ceisio gwneud penderfyniadau doeth a gwybodus, fel y gallant gyfiawnhau'r opsiwn y maent yn ei ddewis i'w rheolwr. Esboniwch nad oes unrhyw ffyrdd cywir/anghywir o wneud hyn, ond mai dyma un ffordd a ddefnyddir yn y gweithle – ni ddylai fod ofn arnynt ddweud beth sydd orau yn eu barn nhw.

Trefnwch y dosbarth yn barau/grwpiau o dri, a rhowch gerdyn Opsiwn iddynt, **Taflen Weithgaredd Disgybl 4/S1** (dewiswch o'r 7 a ddarperir neu gallwch wneud rhagor eich hunan). Gofynnwch iddynt ddarllen y cerdyn yn ofalus a sicrhau eu bod yn deall beth mae'n ei olygu. Y syniad yw cynnal 'dadansoddiad SWOT'. Beth yw hyn? Dadansoddiad o *Strengths* (Cryfderau), *Weaknesses* (Gwendidau), *Opportunities* (Cyfleoedd) a *Threats* (Bygythiadau).

Gan edrych ar yr opsiwn y maent yn ei gael, gofynnir iddynt gwestiynu:

- **Cryfderau'r** syniad o safbwynt y goeden, ac yna'r ceidwaid a/neu'r cyhoedd.
- **Gwendidau'r** syniad o safbwynt y goeden, ac yna'r ceidwaid a/neu'r cyhoedd.
- **Cyfleoedd** y syniad o safbwynt y goeden, ac yna'r ceidwaid a/neu'r cyhoedd.
- **Bygythiadau'r** syniad o safbwynt y goeden, ac yna'r ceidwaid a/neu'r cyhoedd.

Rhowch rai enghreifftiau wrth i chi esbonio.

Gan ddefnyddio **Taflen Weithgaredd Disgybl 4/S2** fel canllaw, dylent drafod y materion ac yna ysgrifennu eu syniadau, dan y pennawd perthnasol. Sicrhewch fod pawb yn deall yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y cardiau. Cadwch lygad ar bob grŵp i sicrhau eu bod yn gweithio drwy'r broses yn llwyddiannus. Datblygu safbwynt personol, ac yna'i drafod gydag eraill, yw nod allweddol y gweithgaredd hwn, yn ogystal â'r cyd-weithio fel grŵp. Pan fyddant wedi penderfynu ar eu dadansoddiad, dylent ddangos eu bod wedi gorffen.

Dewch â'r holl grwpiau ynghyd – gofynnwch i un aelod o bob grŵp gyflwyno eu canfyddiadau i weddill y dosbarth. A oedd unrhyw anawsterau wrth geisio dod i benderfyniad grŵp? Sut gwnaethon nhw ddatrys y broblem hon?

Gofynnwch i bob unigolyn raddio'r opsiynau [1=gorau i 7=gwaethaf] er mwyn cael y penderfyniad mwyaf cytbwys a gwybodus ar gyfer rheoli. Gallwch gasglu'r atebion ar siart, neu gynnal pleidlais gudd. O'r safbwyntiau a gasglwyd, beth yw'r penderfyniad rheoli y byddent yn ei argymell, ac ai'r penderfyniad hwn fyddai wedi cael ei argymell petaent wedi trafod yn agored? Beth yw cryfderau a gwendidau trafodaeth - beth sydd weithiau'n digwydd i'r wyddoniaeth?

Defnyddiwch gylch rhannu i ganfod beth maent wedi'i fwynhau a'i ddysgu am gadwraeth coed hynafol, beth maent wedi'i ddysgu am wneud penderfyniadau gwybodus, gwaith ceidwad cefn gwlad a sut i ddod yn un, a/neu am ddysgu a gweithio mewn grŵp – beth yw eu cryfderau a'u gwendidau nhw eu hunain?

3720/06/08

The Tree Register · ancient tree forum · heritage lottery fund LOTTERY FUNDED · Esmée Fairbairn FOUNDATION · SCOTTISH NATURAL HERITAGE · wcva

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

TAFLEN WEITHGAREDD 4/S1: TAFLEN DISGYBL

Gwarchod Coed Hynafol – cardiau opsiwn

Lleihau maint corun y goeden, er mwyn lleihau'r tebygrwydd o golli cangen. Lleihau uchder a lled y corun, efallai dros gyfnod o amser. Lleihau nifer y canghennau sy'n drwm ar y pen, neu eu teneuo er mwyn lleihau'r gallu i wrthsefyll gwynt. Cyfyngu ar fynediad i'r goeden mewn tywydd stormus. Torri'r goeden i lawr i'r llawr. Symud yr holl bren marw a byw o'r safle, a thacluso'r safle.	Torri'r canghennau mawr yn stympiau – i gynnal sefydlogrwydd y boncyff. Torri pren byw/marw, gan ddefnyddio dulliau torri naturiol, gan adael y stwmp i fywyd gwyllt.
Newid y defnydd o'r ardal yn ddôl bywyd gwyllt; torri llwybr taclus drwy'r gwair i bwynt lle y gellir gweld y goeden yn glir.	Torri'r goeden i'r llawr. Torri'r holl bren yn foncyffion a'u gadael i bydru ar y safle – ger stwmp y goeden gynt er mwyn sicrhau peth parhâd fel cynefin.
Defnyddio panel dehongli i esbonio proses heneiddio'r goeden, a'i phwysigrwydd i fywyd gwyllt – hefyd rhybuddio'r cyhoedd o'r peryglon.	Symud y byrddau picnic a'r mannau parcio, a chael gwared ag unrhyw lwybrau amlwg i'r safle, ger y goeden. Gadael y canghennau sydd wedi syrthio ar y llawr i geisio rhwystro ymwelwyr. Gofyn i'r Ceidwaid arwain grwpiau yno'n rheolaidd i roi mynediad i'r goeden, ac esbonio'i gwerth i bobl a bywyd gwyllt.
Defnyddio ffens/rhwystr isel tu allan i ganopi'r goeden; defnyddio arwyddion i rybuddio'r cyhoedd o'r peryglon, a gwahardd mynediad i'r safle, yn enwedig mewn tywydd stormus.	

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

TAFLEN WEITHGAREDD 4/S2: TAFLEN DISGYBL

Gwneud Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

CRYFDERAU	GWENDIDAU
CYFLEOEDD	**BYGYTHIADAU**

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

UNED 4: TAFLEN ATHRO

Gweithgaredd 2: Coed Hynafol mewn Trafferth

Beth i'w wneud

Mewn grwpiau bach o 2-3, dosbarthwch gopïau o 3-4 erthygl am hen goed neu goed hynafol naill ai'n cael eu harbed neu'n cael eu dinistrio. Er enghraifft:

- 02 Chwefror 2003 – ywen 300 mlwydd oed yn cael ei harbed!
- 14 Gorffennaf 2004 – Castanwydden Felys hynafol dan fygythiad oherwydd cynlluniau ymestyn maes awyr.
- 29 Mehefin 2003 – Hen goeden yn cael ei thorri i lawr yn Surrey.
- 17 Tachwedd 2002 – Onnen yn cael cynnig arall

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen yr holl straeon. Dylent ofyn cwestiynau os nad ydynt yn deall rhywbeth. Gan ddefnyddio **Taflen Weithgaredd Disgybl 4/S3** *Coed Hynafol mewn Trafferth* a'r amlinelliad, gofynnwch iddynt nodi a llunio rhestr o ba **fygythiadau** sydd wedi cyfrannu at roi'r goeden mewn perygl, a pha **atebion** sydd wedi cyfrannu at arbed/beidio ag arbed y goeden hon, neu goeden arall debyg.

Ar ôl dod i gytundeb, dylent ysgrifennu pob bygythiad ar hyd un gwreiddyn, a phob ateb ar hyd un gangen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio un stori i arddangos beth mae'n rhaid iddynt ei wneud.

Lluniwch amlinelliad o'r goeden ar arddangosfa wal. Gall y grŵp cyntaf i orffen ychwanegu eu bygythiadau, yr ail grŵp eu hatebion, ac wrth i weddill y grwpiau orffen, gallant ychwanegu rai gwahanol. Mae'n rhaid iddynt fod yn gallu cyfiawnhau eu dewisiadau.

Enghreifftiau o:

Bygythiadau:

- Ymddygiad gwael/anghyfrifol oherwydd anwybodaeth – torri coed, llosgi, cywasgiad pridd, ayyb.
- Prinder pobl ifanc/oedolion sy'n deall coed/coetiroedd.

Offer angenrheidiol:

Ystafell gyfrifiadur gyda mynediad i'r Rhyngrwyd – gwefan Coed Cadw www.ancient-tree-hunt.org.uk/project a/neu

Copïau o 3-4 stori o'r rhai sydd ar gael ar dudalen newyddion gwefan Fforwm Coed Cadw – www.woodland.trust.org.uk/ancient-tree-forum/atfnews/archive - 1 set i bob grŵp

Copïau o **Daflen Weithgaredd Disgybl 4/S3** – *Coed Hynafol mewn Trafferth* – un yr un

- Diffyg gwybodaeth wyddonol am hen goed/coed hynafol a'u gwerth ecolegol ar gael i'r cyhoedd.
- Diffyg gwybodaeth gyfreithiol o ba weithredoedd cysylltiedig â choed sy'n cael eu caniatáu/ddim yn cael eu caniatáu ymhlith grwpiau allweddol - datblygwyr, tirfeddianwyr, cynghorau lleol.
- Diffyg gwerthfawrogiad gan bobl o arwyddocâd hanesyddol/diwylliannol hen goed/coed hynafol yn lleol.
- Tuedd cymdeithasol i ganolbwyntio ar ddatblygiad, budd economaidd ac iechyd a diogelwch ar bob cyfrif.
- Anlwc – y bobl anghywir yn y lle anghywir ar yr amser anghywir.
- Newid defnydd tir – heb ystyried yn gyntaf opsiynau sy'n ffafrio coed hynafol

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

Atebion:

- Cael barn gweithwyr proffesiynol gwybodus cyn torri coed i lawr.
- Lwc – y person cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir.
- Systemau ar waith yn lleol ac yn genedlaethol i warchod coed.
- Hyrwyddo coed hynafol am eu gwerth gwyddonol a hanesyddol.
- Canfod yr holl goed diddorol a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt – cysylltu â'r Helfa Coed Hynafol
- Cael sylw aelodau o'r cyhoedd a thirfeddianwyr – grwpiau gwylio ac ymgyrchwyr.
- Addysgu datblygwyr a'r llywodraeth ynghylch goed hynafol.
- Darparu dewisiadau positif i ddatblygwyr ac arweiniad rheoli.
- Darparu arweiniad yn y gwaith o reoli coed hynafol yn bositif i dirfeddianwyr a rheolwyr tir/fforestwyr/garddwyr

Mewn cylch o amgylch yr arddangosfa [a threfniadau gosodiad (Gweithgaredd1)], trafodwch y materion a godwyd – beth wnaeth eu synnu fwyaf, beth gredent oedd fwyaf arwyddocaol i'r gwaith o warchod coed hynafol i'r dyfodol, sut oedd arddangos y wybodaeth yn y modd hwn yn eu helpu i ddehongli, gwell na rhestrau? Sut mae hyn oll yn effeithio ar eu dysgu am wyddoniaeth yn yr ysgol, a'i ddefnydd iddynt yn eu rôl fel dinasyddion y dyfodol?

[Bydd o leiaf un o'r gwreiddiau yn cynnwys *diffyg gwybodaeth wyddonol/ecolegol*.

Bydd o leiaf un o'r canghennau yn cynnwys cael *gwybodaeth wyddonol/ecolegol*].

Dyma rai agweddau eraill posibl y gellir eu trafod:

- Mae gwyddoniaeth yn ddefnyddiol pan gaiff ei roi ar waith yn y byd real – gwybodaeth a dealltwriaeth o ecosystemau, prosesau ecolegol, coed a bywyd gwyllt arall.
- Mae gwyddoniaeth yn ddefnyddiol pan fydd yn arwain at waith – beth yw *arborist* (tyfwr coed)?
- Nid yw ein gwybodaeth o goed yn gyflawn, yn enwedig mewn perthynas â choed hynafol.
- Mae gwarchod a diogelu coed hynafol yn rhywbeth y gallwn i gyd gyfrannu ato – hyd yn oed os na wnawn fwy nag ysgrifennu at ein cyngor lleol neu'r AS/AC lleol.
- Mae'r rhan fwyaf o atebion yn y byd real yn galw ar wahanol ddisgyblaethau i'w datrys - gwyddoniaeth, y celfyddydau mynegiannol, emosiynau ac angerdd, pynciau cymdeithasol.
- Mae gan y cyhoedd yn gyffredinol rôl i'w chwarae wrth warchod coed hynafol, yn ogystal â naturiaethwyr proffesiynol.
- Fel dinesydd, gallech chwarae rôl bwysig fel 'gwyliwr' neu rywun sy'n 'annog eraill' – os oes gennych ddiddordeb mawr mewn gwyddoniaeth/natur, rhannwch ef ag eraill.

Gall unrhyw rai sydd â diddordeb ymweld â gwefannau Fforwm Coed Hynafol a'r Helfa Coed Hynafol. Mae'n bosibl mynd at y gwefannau drwy wefan Coed Cadw **www.woodland.trust ancient-tree-forum.org.uk, a www.ancient-tree-hunt.org.uk/project**

The Tree Register · ancient tree forum · heritage lottery fund LOTTERY FUNDED · Esmée Fairbairn FOUNDATION · SCOTTISH NATURAL HERITAGE · wcva

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

TAFLEN WEITHGAREDD 4/S3: TAFLEN DISGYBL

Coed Hynafol mewn Trafferth



3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

GWYDDONIAETH:

COED HYNAFOL A PHOBL

UNED 4: TAFLEN ATHRO

Gweithgaredd 3: Mae coed hynafol yn cyfrif – argyhoeddi pobl

Beth i'w wneud

Ysgrifennwch neu arddangoswch y dyfyniadau canlynol ar sgrin/bwrdd gwyn:

"Ni all 10,000 o goed derw mewn 100 mlynedd gymryd lle un dderwen sy'n 500 mlwydd oed."

Oliver Rackham, gwyddonydd, awdur ar gadwraeth, a hanesydd coetiroedd

" Mae coed hynafol yn werthfawr. Nid oes fawr ddim arall ar y Ddaear sy'n cynnig cartref i gymuned bywyd mor gyfoethog o fewn un organeb fyw"

Sir David Attenborough, gwyddonydd, darlledwr teledu ac ymgyrchwr dros gadwraeth

Beth y maent yn ei wybod am rywun arbennig? Dewiswch wyddonydd hanesyddol a fu'n gorfod ymladd i gael gwyddonwyr eraill a'r cyhoedd i ddeall ei ddarganfyddiadau, ac a fu farw, efallai, dros ei ddaliadau. Neu, er enghraifft, defnyddiwch Beatrix Potter, yr awdur plant enwog. Roedd hi'n feicolegydd medrus iawn, ond pan gyflwynwyd ei gwaith i'r Gymdeithas Linnaean Frenhinol yn Llundain yn yr 1800au hwyr, fe'i hanwybyddwyd yn bennaf oherwydd mai menyw oedd hi. Gwelwyd mewn amser fod ei gwaith yn gywir, ond roedd hi cyn ei hamser! Yn ei rhwystredigaeth, dechreuodd ysgrifennu llyfrau plant – pwy orfu, yr artistiaid neu'r gwyddonwyr?

Esboniwch fod gwyddonwyr drwy hanes a ddaeth yn awduron, cyflwynwyr neu ymgyrchwyr wedi canolbwyntio'n angerddol ar eu diddordeb penodol, e.e. Archimedes, Galileo, Darwin. Yn y dyddiau cynnar, roedd gwyddonwyr yn barod i ddweud celwydd er mwyn amddiffyn eu daliadau fel y dangosai gwyddoniaeth iddynt, waeth faint o hynny oedd yn groes i'r hyn a gredid ar y pryd. Rydym yn ffodus nad yw pethau heddiw cynddrwg â'r dyddiau hynny!

Felly, gadewch i ni edrych ar y gosodiadau. Beth yw eu barn am y gosodiadau hyn, a wnaed gan ddau o wyddonwyr a chadwraethwyr pwysig ein cyfnod, a beth yw'r wyddoniaeth sy'n eu cefnogi?

Offer angenrheidiol:

Cyfrifiaduron at ddefnydd y dosbarth a rhestr o wefannau defnyddiol, yn ogystal â llyfrgell yr ysgol a blychau o adnoddau.

Gallech ymuno â'r adrannau Cymraeg neu Gelf a Dylunio i ddatblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion yn y cyd-destun gwyddonol hwn – archwilio 'Coed Hynafol'.

Edrychwch ar adnoddau dysgu Cymraeg a Chelf a Dylunio ar wefan yr Helfa Coed Hynafol.

Sut fyddent yn mynd ati i ysgrifennu erthygl fer neu draethawd i gylchgrawn, sy'n esbonio ac yn datblygu'r datganiadau hyn? Fel arall, gallech gael grwpiau bach yn datblygu cyflwyniad Powerpoint 10 munud o hyd, neu glip fideo i ymddangos ar y teledu gyda chyflwynydd - gwisgo'r clogyn 'ieuenctid' a chymryd lle Ted Green (a welir yn aml yng nghlipiau fideo ATH/ATF) wrth siarad yn frwdfrydig am goed hynafol.

Trafodwch gyda hwy bwrpas a strwythur y math hwn o ysgrifennu gwyddonol –

- **Cyflwyniad** (i osod yr olygfa ac ennyn diddordeb y darllenwyr)
- **Prif gorff** (cyflwyno'r dystiolaeth)
- **Casgliad** (dod i gasgliad gwybodus wrth i'r achos ddod i ben)

Rhoi enghreifftiau o'r math o dystiolaeth/ddarluniad y gallent ei ddefnyddio. Cyfyngwch ar nifer y geiriau sydd i'w defnyddio. Rhowch amser gorffen iddynt ar gyfer ymchwilio a chwblhau'r traethawd/erthygl – gellid ysgrifennu'r erthygl gyda llaw neu ddefnyddio prosesydd geiriau. Gallech ofyn i'r disgyblion werthuso gwaith ei gilydd; cynhaliwch gystadleuaeth a rhowch wobrau i'r Tri Uchaf neu ddisgyblion sy'n haeddu gwobr.

Gallech bostio'r canlyniadau gorau ar wefan/cylchlythyr yr ysgol; anfonwch nhw at dîm Yr Helfa Coed Hynafol neu wefannau Fforwm y Coed Hynafol, neu gallwch eu cynnig i bapur newydd neu gylchgrawn lleol.

The Tree Register · ancient tree forum · heritage lottery fund LOTTERY FUNDED · Esmée Fairbairn FOUNDATION · SCOTTISH NATURAL HERITAGE · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08